

Lefel 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Lluniwyd y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn bennaf ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n awyddus i ddysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n addas i ddysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Argymhellir yn gryf bod dysgwr sy'n ymgymryd â'r cymhwyster hwn wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau ar hyn o bryd y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster yn cynnwys y materion cyfredol canlynol yn ymwneud â'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru:

- agweddau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad ar draws camau bywyd unigolion
- dylanwad ffactorau mewn bywyd, dewisiadau ffordd o fyw a digwyddiadau mewn bywyd ar dwf, iechyd a llesiant
- ffactorau sy'n llywio hunangysyniad
- rôl a phwrpas hybu iechyd a llesiant
- anghenion unigol ar draws pob cam bywyd
- cyfleoedd a heriau yn lleol a ledled Cymru
- rôl a chyfrifoldebau gweithwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- deddfwriaeth ac egwyddorion gofal a chefnogaeth.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf **60 awr** o ymgysylltu â'r sector, y mae'n rhaid treulio o leiaf **30 awr** o hynny yn ymgymryd â lleoliad gwaith. Gallai mathau eraill o ymgysylltu â'r sector gynnwys ymweliadau â'r gweithle, darlithwyr gwadd a mynychu cynadleddau a digwyddiadau allanol.

Strwythur y cymhwyster

Cymhwyster unedol yw'r cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Mae'n cynnwys dwy uned orfodol:

Uned	Teitl yr Uned	Asesu
1	Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd	Allanol
2	Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog	Mewnol

Asesu

Asesir y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau drwy 60% asesiad mewnol a 40% asesiad allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- aseiniad wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol
- arholiad allanol.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant i ddysgu/hyfforddiant a/neu gymwysterau pellach, gan gynnwys:

- Tystysgrif a Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Prentisiaethau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn www.dysguiechydagofal.cymru